

Llais Ogwan


Papur Bro Dyffryn Ogwen

Ionawr 2011

Rhif 407

50c

Eira! Eira!



Cwrlid gwynnach na'r carlwm, - y gaeaf
Yn gweu rhyfedd batrwm;
Ac wele dan ei gwllwm
Unlliw'r coed a llawr y cwm.

Alun Jones

ROEDD y Nadolig eleni'n un i'w gofio am fwy o resymau na'r arfer. Do fe wariwyd gormod, do roedd llawer gormod o fwyta'n mynd ymlaen, a do fe anghofwyd ambell berthynas ar y rhestr anrhegion! Ond, daeth un peth â rhywbeth gwahanol iawn i'n plith eleni, rhywbeth nad oedd gennym reolaeth o gwbl drosto – na, nid bil y cerdyn credyd – EIRA! A bois bach, fe gawsom drwch yn do?

Ond er gwaethaf yr anghyfleustra, calondid oedd clywed am yr holl enghreifftiau o gymorth ymarferol a roddwyd gan drigolion y fro i'r rhai a oedd yn ei chael yn anodd iawn i fynd o gwmpas yn ystod y cyfnod - tymor 'ewyllys da' yn wir! Yn sicr, mae gennym i gyd le i ddiolch ein bod yn byw mewn bro mor glos ei chymdeithas.



Beth sy'n bwysig am fis Ionawr?

Wedi holl fwrllwm Rhagfyr, hawdd iawn fuasai troi cefn ar dywyllwch y mis hwnnw sy'n gyfrifol am agor y ddolen i flwyddyn newydd. Ond y mae i Ionawr bwysigrwydd mawr yn ein hanes fel gwlad, yn ein diwylliant ac yn ein harferion:

Yn rhifyn Ionawr o'r cylchgrawn "Cymry'r Plant" y plannodd Ifan ab Owen Edwards hedyn cyntaf Urdd Gobaith Cymru trwy wahodd y darllenwyr i ymuno â'r mudiad newydd.

Bu farw Carwyn James, un o gewri rygbi Cymru.

Bu farw William Williams Pantycelyn, un o'n prif emynwyr.

Enillodd y Cymro Howard Winstone bencampwriaeth bocsi o'r byd yn Llundain yn 1968.

Cynhaliwyd rali Penmachno gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn 1969 fel dechreuad i'r ymgyrch i gael arwyddion ffyrdd yn Gymraeg.

Bu farw Cynan, un o feirdd, dramodwyr ac eisteddfodwyr mwyaf lliwgar Cymru.

Cyfansoddodd Evan James o Bontypridd eiriau "Hen Wlad Fy Nhadau" i egluro i'w frawd, a ymfudodd i'r Amerig, pam na allai ymuno ag ef yno.

Cwblhawyd Pont y Borth dros y Fenai gan Thomas Telford.

Lladdwyd dros ddwy fil o bobl gan lifogydd hyd arfordir Gwent yn 1606.

Dethlir Gŵyl Santes Dwynwen, santes cariadon Cymru.

Felly, dydi'r mis tywyll ddim yn ddrwg i gyd!

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Llais

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts hylaw@btinternet.com	☎ 600965
Ieuan Wyn cylch@tiscali.co.uk	☎ 600297
Lowri Roberts l.roberts11@btinternet.com	☎ 600490
Elina Owen wernos@btinternet.com	☎ 600557
Fiona Cadwaladr Owen Fiona@fowen.wanadoo.co.uk	☎ 601592
Siân Esmor Rees sian_esmor@btinternet.com	☎ 600427
Emlyn Evans emlynevans@live.co.uk	☎ 600501
Neville Hughes nev_hughes@btinternet.com	☎ 600853
Dewi A Morgan dewimorgan@fsmail.net	☎ 602440
Dafydd Fôn Williams dafydd@gerlsn.wanadoo.co.uk	☎ 601583
Walter W Williams waltermenai@yahoo.co.uk	☎ 601167

SWYDDOGION

Cadeirydd:
André Lomozik, Zakopane,
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 23 Ystad Coetmor,
Bethesda LL57 3DR ☎ 600872

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184

Golygydd y Mis

Golygddion y mis hwn oedd Lowri Roberts a Walter W Williams. Golygydd mis Chwefror fydd Neville Hughes, Bryn Ffrydilas, 14 Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA. (01248 600853)
nev_hughes@btinternet.com
Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 2 Chwefror.
Plygu nos lau, 17 Chwefror yng Nghanolfan Cefnfaes am 7.30..

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Ionawr

- 22 Bore Coffi Cyfeillion Ysgol Abercaseg
Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00.
25 NSPCC Cangen Bethesda. Cyfarfod y
Gangen. Cefnfaes am 2.15.
25 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00.
27 Merched y Wawr Bethesda.
Sgwrs gan Marcus Robinson.
Cefnfaes am 7.00.
29 Bore Coffi Cynnal Gofalwyr.
Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00.

Mis Chwefror

- 03 Sefydliad y Merched Carnedd.
Sgwrs gan Dafydd Morris. Cefnfaes
am 7.00.
05 Bore Coffi Eglwys Glanogwen a
Llanllechid. Neuadd Ogwen
10.00 - 12.00.
07 Merched y Wawr Tregarth. Enwau
Lleol gyda Ieuan Wyn. Festri Shiloh
am 7.00.
09 Cymdeithas Lenyddol Gofalaeth Bro
Dyffryn Ogwen. Festri Bethlehem
Talybont am 7.00.
12 Bore Coffi Pwyllogr Apêl Eisteddfod yr
Urd. Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00.
14 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.
Festri Jerusalem am 7.00.
15 Plaid Lafur Cangen Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.
19 Bore Coffi Plaid Cymru D. Ogwen.
Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00.
22 Cyfarfod Blynyddol Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
24 Merched y Wawr Bethesda. Dathlu
Gŵyl Ddewi. Cefnfaes am 7.00.
26 Bore Coffi at Uned Cancr y Fron,
Ysbyty Gwynedd 10.00 - 12.00.

Mis Mawrth

- 03 Y Refferendwm.
Diwrnod Pleidleisio am Ragor o
Bweru i Gynulliad Cenedlaethol
Cymru.

*Os am roi sylw i'ch digwyddiad chi yn y
dyddiadur cysylltwch â Neville Hughes ar
600853*

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad
Cymru



Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£16 Gwledydd Prydain
£24 Ewrop
£32 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
Gorffwysfa, Sling, ☐
LL57 4RJ ☎ 01248 600627

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda, LL57 3LY
☎ 01248 601669

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Ionawr 2011

£30 (11) R. Orina Pritchard,
Rhos y Nant, Bethesda.
£20 (63) Awen Gwyn,
Maes yr Hedydd, Tregarth.
£10 (47) Mrs Vera Griffiths,
27 Maes y Garnedd, Bethesda.
£5 (182) Dafydd Morris, Garnedd Uchaf.

Os ydych chi am ymuno beth am roi tonc
i Neville Hughes ar 600853.

Rhoddion i'r Llais

£ 4.50 Mr a Mrs Elwyn Jones,
Bryn Seiriol, Rhiwlas.
£ 3.10 Rhoddion dienw, Carnedd.
£ 5.00 Emyr a Heulwen Roberts,
Ystradawel, Ffordd Bangor.
£ 5.00 Mrs E. Griffiths, 5 Rhos Mostyn.
£20.00 Er cof annwyl am Derek Ford,
Bethesda.
£10.00 John ac Eirlys, 4 Braichmelyn.
£10.00 Er cof am Mr W. J. Evans,
15 Ffordd Llanllechid (helpar
Siôn Corn) a Mrs Glenys Evans,
Ceunant, oddi wrth Gwil Rees a
theulu Henbarc.
£14.00 Elwyn Hughes, Ystradgynlais.
£14.00 Ann Huws, Y Fali.
£14.00 Myrddin Williams, Clynog Fawr.
£10.00 Joan Jones, Cemaes.
£10.00 D. Mair Jones, Eton Wick.
£ 9.00 Donna Coleby, Penwortham.
£ 9.00 Gwen Guffydd, Aberystwyth.
£ 9.00 Betty Jones, Deganwy.
£ 5.00 Beti Lewis, Abergynolwyn.
£ 4.00 Di-enw, Lloegr.
£ 4.00 Gwynfryn Davies, Caernarfon.
£ 4.00 J. Gwynfor Davies, Widnes.
£ 4.00 Eirwen Hughes, Ripponden.
£ 4.00 Ken Jones, Edgware.
£ 4.00 Gwen Pritchard, Bangor.
£ 4.00 Mr D. W. Thomas,
Barrow in Furness.
£ 4.00 Emyr Wyn Williams,
Porthaethwy.

Diolch yn fawr i bawb

Cydnabyddir cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Gwasanaeth Nadolig Cymunedol 2010

Oherwydd y tywydd garw, ni lwyddwyd i
gynnal y gwasanaeth uchod, ond
edrychir ymlaen at gael ei gyflwyno ar
nos Sul, 18 Rhagfyr, 2011. Yn y
cyfamser, bwriedir dod â Chôr y Dyffryn
at ei gilydd eto ddiwedd
Mawrth/dechrau Ebrill, er mwyn dechrau
ymarfer ar gyfer gweithgaredd fydd yn
cael ei gyflwyno tua mis Mehefin. Bydd
rhagor o wybodaeth yn rhifyn nesaf y
Llais

Annwyl Olygydd



**Llwydiarth,
38 Tal y Cae,
Tregarth,
Bangor,
Gwynedd.
LL57 4AE**

Ffon: 01248 601094

Annwyl Ddarllenwyr,

Cefais air gan 'Bwyllgor Gwaith' y Llais rhyw fis yn ôl tybed a fyddwn yn fodlon cymeryd gofal o wasanaeth Llais Ogwan Ar Lafar - y gwasanaeth recordio tapiau o Llais Ogwan ar gyfer pobl â nam ar eu golwg. Cais anodd iawn i mi ei wrthod gan mai Rhiannon fy niweddar wraig a gychwynnodd y gwasanaeth rhai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn.

Mae'r gwasanaeth gwerthfawr hwn wedi cael ei gynnal bron ar ei ben ei hun gan Mr Neville Hughes ers i Rhiannon gael ei tharo'n wael tua dwy flynedd yn ôl. Mae'n dyled i Neville yn enfawr yn Nyffryn Ogwen fel y gwyddom yn dda. Diolch o waelod calon i ti Neville. Serch hynny, ni chaiff Nev 'ddal y slac yn dynn' bydd yn parhau fel un o'r darllenwyr ac wrth gwrs fel Trysorydd Llais Ogwan ar lafar.

Felly, dyma ddot at hanfod fy llythyr. Rydym yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr i ddarllen y Llais. Fy ngobaith ydi y gallwn gael sawl tîm o ddarllenwyr fel yn y gorffennol a chael pnawniau / nosweithiau hwyliog yn cyd-ddarllen. Mae nifer wedi rhoi eu henwau ymlaen eisoes ond gorau po fwyaf i rannu'r gwaith.

Codwch y ffôn neu gyrrwch air mewn unrhyw ffordd, cyfeiriad e-bost: awrowlands@tiscali.co.uk <<mailto:awrowlands@tiscali.co.uk>> a beth am gael tipyn o hwyll!

**Yr eiddoch yn gywir,
Arthur Wyn Rowlands**

Codi Canu Côr Ogwen a'r Cylch

Annwyl Olygydd,

Dymuna aelodau Côr Ogwen a'r Cylch ddiolch o galon i Mari Pritchard, Neil Williams a'r gyfeilyddes Angharad Wyn am y cyfle i ddot at ein gilydd a phrofi'r wefr fythgofiadwy o lwyfannu yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Côr Ogwen a'r Cylch oedd y lleiaf o lawer mewn nifer, ond yn ôl y Maestro, Owain Arwel Hughes, dyma Gôr o leisiau da o safon gerddorol uchel, yn dehongli'n effeithiol a'r cyferbyniad rhwng yr emyn dôn Prysgol a Hafan Gobaith yn iasol.

Llongyfarchiadau ar ei lwyddiant i Gôr brwdfrydig Rhos – Côr a lwyddodd i ddenu ymhell dros gant o aelodau!

Diolch Mari, Neil ac Angharad
oddi wrth Aelodau'r Côr

Annwyl Ddarllenwyr,

Myfyriwr o Brifysgol Manceinion ydw i (er fy mod i'n dod o Wrecsam yn wreiddiol) ac yn gwneud prosiect am y gwahaniaethau rhwng tyfu i fyny yn y Gogledd Orllewin ac yn y Gogledd Ddwyrain. Yr wyf wedi penderfynu cymharu dau le, sef Bethesda a'r Fro a Rhosllannerchrugog (ger Wrecsam), ac yn chwilio am help gan y bobl leol.

Hoffwn gynnal sgysiau efo pobl leol rhwng 18 a 30 oed. Mae'r sgysiau'n cymryd tuag awr ac yn cael eu recordio, ond maen nhw'n hollol anffurfiol ac yn anhysbys. Yr wyf yn gwybod bod pobl yn brysur iawn y dyddiau yma, ond mi fyddwn yn ddiolchgar pe baech chi'n gallu fy helpu! Os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth, e-bostiwch jonathan.morris@postgrad.manchester.ac.uk <<mailto:jonathan.morris@postgrad.manchester.ac.uk>> neu ffoniwch 07837389207.

**Yn gywir,
Jon Morris**

**30 Adwy'r Nant,
Bethesda**

Annwyl Olygydd,

Hoffwn, drwy gyfrwng y Llais, ddiolch o galon i'r Cynghorydd Ann Williams am ei gwaith dros gyfnod y gwyliau pan oedd amgylchiadau yn anodd iawn oherwydd yr eira. Fe lwyddodd i gael Cyngor Gwynedd i gasglu'r bagiau sbwriel a chlirio'r llanast ofnadwy oedd yn Adwy'r Nant. Rydym yn ffodus iawn bod gennym gynghorydd mor gydwybodol a gweithgar yn Ward Ogwen.

**Yn ddiolchgar,
Helen Ogwen**

Reginald Hawkins

Yn ddiweddar daeth y newyddion trist fod Reginald Hawkins, y faciwî o Lerpwl a gafodd loches hefo John a Jane Owens, 42 Ffordd Carneddi yn ystod y rhyfel, wedi marw ddechrau mis Rhagfyr. Mae ei deulu yn ddiolchgar i'r tri pherson a gysylltodd ag o ar ôl darllen yr erthygl yn Llais Ogwan mis Hydref ac yn diolch hefyd i'r Llais am gyhoeddi ei hanes.

Pwyllgor Apêl Bethesda Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012

Clwb Cant

Enwau buddugwyr mis Rhagfyr y Clwb Cant a sefydlwyd yma yn y Dyffryn i godi arian i Eisteddfod yr Urdd 2012 yw:

1af Gwilym Owen, 6 Rhos y Nant, Bethesda LL57 3PP
£30

2il Donna Pierce Evans,
5 Grisiau Cochion,
Bethesda, Bangor LL57
4YN
£18

3ydd Elin Angharad Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub, Bethesda,
Gwynedd LL57 3LW
£12.50

Cofiwch, nid yw'n rhy hwyr i ymaelodi. Pa fwyaf o aelodau sydd gennym, mwyaf hael y gwobrau misol! Os am ffurflen cysylltwch â Dewi Morgan ar 01248 602440 neu anfonwch e-bost at dewimorgan@fsmail.net a gallwn anfon y ffurflen ymaelodi atoch ar yr e-bost. Dim ond £1 y mis yw'r aelodaeth ac mae'r Clwb yn bodoli am 15 mis arall, felly 15 cyfle arall i ennill y gwobrau!

SIOP BARBWR MR TOM

78 Stryd Fawr
Bethesda

Torri gwallt Dynion a Phlant
gan Helen (hogan leol)
Hefyd Gwelyau Haul a Thrin
Ewinedd gan Emma

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

John Wyn Jones,
Siop W E Jones
(Siop John), Rhos Victoria
(Stryd Fawr), Bethesda
☎ 600251

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐ ☎ 601902



Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Dylan a Lowri ar achlysur eu priodas ar 3 Rhagfyr 2010 yn Barbados. Pob lwc i'r dyfodol gan y ddau deulu.

Diolch

Hoffai Dylan a Lowri ddiolch yn fawr am yr holl gardiau a rhoddion caredig a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Ettie Evans ddiolch o galon i deulu a chyfeillion am y caredigrwydd a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Cartref Newydd

Croeso i Mr a Mrs H. Griffiths i'w cartref newydd yn Adwy'r Nant.

Ysbyty

Gwellhad buan i'r sawl a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod yn gwella wedi i chwi ddychweilyd adref. Mr Gareth Adams, Abercaseg; Mrs Brenda Owen, Ffordd Ffrydlas; Mr Godfrey Northam, Ystâd Coetmor; Mr Frank Thomas, Glanogwen; Miss Gwenno Roberts, Rhos Tai Glanogwen; Mrs Olwen Williams, Maesygarneidd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â'r teuluoedd a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:

Mr a Mrs Ian Griffith a'r teulu, Penybryn; Mr a Mrs Barry Griffith a'r teulu, Cefnfaes (colli tad a thaid, sef Mr J. Griffith, Rachub); Mrs E. Griffith a'r teulu, Rhos Mostyn; Mr a Mrs Thomas Jones a'r teulu, Rhos y Coed (colli brawd – Mr J.F. Jones, Rhiwlas).

Cydymdeimlwn â Marian, Zak, Laura ac Owen, Bontuchaf ar gollu mam a nain sef Mrs Rhiannon Roberts, Coed Isaf. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Annie R. Jones, Henbarc. Anfonwn ein cydymdeimlad at Thomas Jones, 3 Rhos y Coed, yn ei brofedigaeth o gollu brawd, sef John Francis Jones, o Riwlis, yn ddiweddar.

Marwolaeth

Ar 7 Rhagfyr yn Ysbyty Llandudno bu farw Mr Harry Roberts, 16 Bontuchaf, yn 84 oed. Priod y ddiweddar Mrs K. Roberts, tad Steven a Maureen, tad yng nghyfraith, a thaid caredig i Craig a Beth. Bu ei angladd ddydd Mawrth, 14 Rhagfyr, gyda'r gwasanaeth yn Amlsgfa Bangor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Gorffwysfan

Bu'r aelodau yn Nhafarn y Gors, Pentre Berw, ar ddydd Mawrth, 7 Rhagfyr, lle cafwyd cinio Nadolig ardderchog. Diolchwyd i bawb am y trefniadau gan y cadeirydd, Mr Eric Jones. Diolchwyd hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at y raffl, yna ar ddydd Iau, 16 Rhagfyr, ymunodd yr aelodau â chymdeithasau'r fro mewn te prynhawn ac adloniant yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Cafwyd gwledd ardderchog, gyda diolch i'r Prifathro, y staff a'r disgyblion am eu croeso.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Cheryl Ann Thomas, merch Janice a Keith Thomas, Tŷ Isaf, Bethesda a Steven Roberts, Bethesda, mab Gwyndaf Roberts, Gerlan ar eu dyweddiad ar eu gwyliau yn Awstria.

Diolch

Dymuna Janice Thomas, Tŷ Isaf, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 50 oed.

Hen Daid a Nain

Llongyfarchiadau i Derrick a Norma, 46 Abercaseg, ar ddydd yn hen daid a hen nain am y tro cyntaf yn mis Tachwedd, gyda genedigaeth Callum i Daniel a Samantha yn Biwmaris. Llongyfarchiadau hefyd i taid a nain, sef Kevin a Beverley, Penybryn.

Ymdeol

Pob dymuniad da i John Cooney, 3 Glan Ffrydlas, ar ei ymdeoliad yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Barbara Anne, sydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y mis yma, oddi wrth Hannah, Mathew ac Emily.

Diolch

Dymuna Janet Jones, Erw Las, ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd wedi ei thriniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon i chi i gyd.

Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Derek Ford ddiolch yn fawr i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o gollu gŵr, tad a thaid annwyl. Diolch yn fawr hefyd am y rhoddion er cof am Derek o £360, sydd yn mynd i Hafan Menai, Macmillan a'r Hosbis Dydd. Diolch hefyd i Gareth Williams am ei drefniadau gofalus.

Cymdeithas Lenyddol

Gofalaeth Bro Dyffryn Ogwen
Ar nos Fercher, 17 Tachwedd, yn festri Jerusalem, cafwyd noson hynod o ddfyfr yng nghwmni Ann a Gomer Davies o Dregarth. "Gwirioni ar Rew" oedd eu testun, ac fe gafwyd cyflwyniad proffesiynol a lluniau gwych o'r Arctig a'r Antartig. Diolch yn fawr iddynt.



Ann a Gomer Davies, Tregarth

Sefydliad y Merched Carneddi

Rhoddodd ein llywydd Gwyneth Morris groeso cynnes i bawb yn ôl a dymunodd flwyddyn newydd dda i'r aelodau i gyd gan obeithio nad oedd yr eira mawr wedi rhoi gormod o loes

dros y Nadolig. Fe gafwyd ychydig o ymddiheuriadau ond serch hyn roedd criw da wedi ymuno ar ddechrau blwyddyn newydd. Yr oedd ein cofion yn mynd tuag at Gwenno Roberts sydd wedi cael llawdriniaeth a gobeithio y bydd yn gwella yn fuan iawn.

Cydymdeimlodd y llywydd â Heddwen Jones a oedd wedi colli brawd yng nghyfraith yn ddiweddar. Ein cofion atoch fel teulu.

Darllenwyd y llythyr misol a thrafodwyd ei gynnwys gan Gwyneth Morris. Nid oedd cofnodion i'w darllen am fis Rhagfyr oherwydd bu raid canslo'r cyfarfod oherwydd yr eira! Cawsom ein cinio Nadolig, wrth lwc, cyn yr eira ac fe ymunodd Merched y Wawr gyda ni yn Nhafarn y Gors, Pentre Berw. Cawsom ginio gwerth chweil cyn mynd i'r ganolfan garddio i weld yr addurniadau Nadolig a gwneud tipyn o siopa!

Ein gŵr gwadd am y noson oedd William Parry, cyn brifathro Ysgol Glan Cegin ym Mangor, ond yn hogyn o Fethesda. Cyflwynodd i ni hanes am waelod stryd Bethesda yn bennaf, sef o Gae Gas i fyny at y Deintydd. Cawsom noson ddfyfr a hwyliog, ag agoriad llygad i rai oedd ddim yn gyfarwydd â'r rhan yma o'r pentre. Yr oedd yn amlwg fod yma gymdeithas glôs iawn pan oedd William yn blentyn. Diolchwyd iddo am noson dda iawn gan Gwyneth Morris ac i'r merched am y baned.

Rhoddwyd y wobwr lwcus gan Glenys W. Jones a'r enillydd oedd Rita Bullock.

Merched y Wawr, Cangen Bethesda

I dathlu'r Nadolig eleni, ymunodd y gangen gyda changen Carneddi o Sefydliad y Merched a chafwyd cinio da iawn a phnawn difyr gyda'n gilydd yn Nhafarn y Gors,



Pentre'r Berw. Roedd llond bws ohonom a bu sgwrsio mawr ar y daith ac wrth y byrddau. Diolch yn fawr i Dilys Jones am drefnu'r cyfan ac i Derfel Owens am ei ofal trosom. Cawsom anerchiadau a dymuniadau gorau'r tymor gan Margaret Jones, Llywydd Merched y Wawr a Gwyneth Morris, Llywydd Sefydliad y Merched. Ar ôl gwledda, cafwyd cyfle i ymweld â chanolfan garddio Holland Arms a chyfle i brynu rhai anrhegion olaf. Gofid i ni oedd deall bod Godfrey Northam, gŵr Jean, wedi cael damwain y pnawn hwnnw ac wedi torri ei figwrn yn ddrwg. Gobeithio ei fod yn teimlo'n well erbyn hyn. Edrychwn ymlaen am gael cyfarfod ar y cyd yn fuan eto. Bydd cyfarfod nesaf Merched y Wawr yng Nghanolfan Cefnfaes, nos Iau, 27 Ionawr, pan ddisgwyliwn groesawu'r Parch. Marcus Robinson.

Yr Eglwys Unedig

Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Bu mis Rhagfyr yn fis oer iawn, ac yn wir, yn ôl yr hanes, hwn oedd mis Rhagfyr oeraf y ganrif. Do, fe gawsom eira'n drwch dros y Nadolig ond yn anffodus roedd hynny yn golygu ein bod wedi colli llawer o gyfarfodydd. Mae llawer o bobl yn sâl a rhai wedi derbyn triniaethau mewn ysbytai. Deallwn fod y cleifion yma'n gwella'n ara deg. Anfonwn gofion at bob un ohonoch mewn ysbyti, cartref gofal neu adref a phob dymuniad da ar ddechrau blwyddyn newydd. Eurwen Morris oedd yn trefnu'r cyfarfod

gweddi ddechrau'r mis a cawsom hefyd gyfraniadau gan Arthur Rowlands, Dafydd Morris a'r Gweinidog. Nos Iau, 9 Rhagfyr, cawsom gyfarfod ar thema'r Nadolig dan ofal Parti Penrhyn a oedd yn ymdeol y noson honno. Roeddem yn meddwl am Ceri y cyd ysgrifennydd a Dennis ei gŵr a oedd newydd gychwyn ar eu taith i Seland Newydd bell i dreulio'r Nadolig gyda Ceri, eu merch a'r teulu. Trefnodd y blaenoriaid Fore Coffi fore Sadwrn, 11 Rhagfyr a bu yn llwyddiant mawr.

Ar 15 Rhagfyr, yn festri Capel Bethlehem, Talybont, cawsom gyfarfod i ddathlu'r Nadolig dan ofal Neville. Braff oedd croesawu Tammy Jones yn ôl i fro ei mebyd i ganu i ni. Yn anffodus bu raid gohirio'r bedydd oedd wedi'i drefnu ar gyfer bore Sul, 19 Rhagfyr oherwydd yr eira. Yn yr un modd bu raid dileu y cyfarfod a drefnwyd gan Gôr y Dyffryn o dan eu harweinydd Menai Williams. Roeddynt wedi gweithio'n galed iawn ac roedd pawb yn siomedig dros ben. Bu raid dileu y Gwasanaeth Cymun fore'r Nadolig a'r gwasanaeth y Sul ond ar ôl hyn bu gweliant yn y tywydd a daeth pethau yn ôl i drefn - dros dro beth bynnag!

Cyhoeddiadau'r Sul Ionawr 16 Y Gweinidog
Ionawr 23 Y Parch. Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts
Ionawr 30 Y Gweinidog
Chwefror 6 Mr R LI Jones
Chwefror 13 Parch. John Owen(10.00)
Ms. Karen Owen(5.00)



Ar fore Sul, 12 Rhagfyr, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul yn y capel. Yn ôl eu harfer, 'roedd y plant ar eu gorau yn cyflwyno eu gwaith. 'Roeddynt yn cynrychioli'r gwahanol wrthrychau sy'n ymwneud â'n dathliadau Nadolig, fel y pwddin a'r mins peis a'r addurniadau, gan eu cyplysu â gwir ystyr y Nadolig. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Dafydd a Caren (yn cymryd rhan Elin ei merch, oedd, druan, wedi bod yn sâl drwy'r nos) a chawsom llawer o wybodaeth ganddynt hwy a'r plant. 'Roedd lleisiau canu'r plant yn bersain iawn, ac 'roedd y gynulleidfa wrth ei bodd pan ofynnodd y gweinidog iddynt ganu'r garol olaf unwaith eto! Ond nid oedd popeth ar ben, oherwydd wedyn aeth pawb i'r festri uchaf i fwynhau parti, a chafwyd gwledda a hanner! I seiniau "Pwy sy'n dŵad dros y bryn" ymddangosodd Siôn Corn a rhoi anrheg i bob plentyn. Diolch i'r plant, yr athrawon i gyd, y rhieni, a phawb a gyfrannodd at y bore hyfryd hwn.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Raymond Tugwell,
9 Ffordd Llanllechid
☎ 601077

Ysbyty
Dymunwn yn dda i Lucy Tugwell sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr Ysbyty.

Pen-blwydd Arbennig
Pen-blwydd hapus i Helen Williams, Llwynbleddyn ar ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Ionawr. Gŵyr pawb am waith caled Mrs Williams gyda'r achos yng Nghapel Carmel. Dwi'n siŵr fod pawb am ddymuno yn dda iddi.

Cofion
Anfonwn ein cofion hefyd at ddau gynghorydd Cymuned Bethesda sydd wedi bod yn sâl dros yr wythnosau diwethaf, sef Pearl Evans a Godfrey Northam.

Cydymdeimlo
Bu'n ddechrau blwyddyn drom ei cholledion i nifer o deuluoedd yr ardal. Gyda braw y derbyniwyd y newyddion am farwolaeth John Griffiths, Llys Llywelyn (John Glo) ac yntau'n 71 mlwydd oed. Bu John a'i frodyr Eifion a Dafydd yn weithgar iawn yn cynnal busnes glo a ddechreuwyd gan y teulu yn yr ardal flynyddoedd yn ôl. Roedd yn gymeriad hwyliog a chymwynasgar. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei wraig Avril a'r plant Heather, Ian, Barry a'u

teuluoedd, a'r teulu oll yn eu colled fawr.

Bu farw un o hogiau Cae Groes hefyd yn sydyn yn ei gartref yn Rhiwlas, sef John Francis Jones ac yntau'n 72 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei fab Kevin a Lynne, Stryd Doctor, hefyd at Thomas ei frawd; Beti Jones, Cae Groes; Gwyneth, Stryd Fawr a'r teulu oll yn eu colled. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Cedol, Pentir ar 7 Ionawr.

Wedi dioddef cystudd o ddwy flynedd bu farw Mrs Rhiannon Roberts, Coed Isa, yng nghartref Cerrig yr Afon, Felinheli, a hithau'n 79 mlwydd oed. Roedd yn berson hawddgar a gweithgar o fewn cymdeithasau yn yr ardal, gyda diddordeb mawr yn y gwaith o Bwyth Croes. Anfonwn ein cydymdeimlad at Marian, Zac, Owain a Laura, Bont Uchaf a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Diolch
Mae Gwili Rees Evans, Ceunant, am ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu a'i ffrindiau yn yr ardal. Hefyd mae am ddiolch o galon am bob dim yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Ceri a Robin, Bryn Eglwys ar enedigaeth merch, Elin Wyn, yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i Raymond a Lisa Roberts, Tyddyn Canol ar enedigaeth merch, Alena, chwaer i Ayla ac Alysha.

Croeso
Croeso i Mrs Heulwen Thomas, sydd wedi symud i Fflat 2 Capel Salem ar ddechrau'r flwyddyn. Dipyn o newid iddi symud o Landaf, Caerdydd. Gobeithio y bydd yn hapus yn ein mysg.

Capel Carmel



Gwasanaeth Nadolig
Bu'r plant a'r bobl ifanc yn cynnal gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig ar ddechrau mis Rhagfyr. Y gennod ifanc gymerodd y rhan arweiniol, ac yna cafwyd unawdau ar wahanol offerynnau cerddorol ganddynt. Yn dilyn daeth y plant ymlaen i ganu carolau a darllen cerddi am y Nadolig. Canwyd dwy gân ganddynt gan offren gyda 'Noson Pen-blwydd yw hon'. Gwisgodd y plant hetiau parti i ddathlu pen-blwydd Iesu Grist.

Parhad drosodd

Capel Carmel (parhad)



Gollyngwyd balŵns o'r galeri a mawr fu'r hwyf yn ceisio eu dal. Diolch i'r plant a'r bobl ifanc am eu gwaith. Arweiniwyd y gwasanaeth yn ardderchog gan Elin Mair Jones.

Addurnwyd y Capel gyda chadwyni papur llwgar a wnaed gan y plant a'r bobl ifanc. Roedd y cadwyni yn cael eu gwerthu am 10c. Llwyddwyd i godi £115 a chafodd ei anfon at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol. Yn ystod misoedd yr hydref bu'r plant yn casglu arian tuag at Genhadaeth Byd Eang C.W.M. Llwyddwyd i godi £300.

Carmel Llanllechid Te Bach

Phawn Llun, 31 Ionawr
2.30 – 4.00 o'r gloch
Croeso i Bawb

Capel Carmel

Cyhoeddiadau

23 Ionawr – Y Gweinidog 2.00 a 5.30
30 Ionawr – Y Parch. J. Owen 5.30
6 Chwefror – Y Gweinidog 2.00 a 5.30
13 Chwefror – Parch/Athro E.W. Jones 2.00
20 Chwefror – Y Parch/Ddr. S.A. Owen 2.00

Ysgol Sul am 10.30 y bore. Dwylo Prysor, Nos Wener, 6.30 yr hwyr.

Te bach, prynhawn Llun, 31 Ionawr, 2.30 hyd 4.00.

Capel Bethel

Cyhoeddiadau

23 Ionawr: Y Parch. Eleri Lloyd Jones
30 Ionawr: Mr Richard Lloyd Jones.
6 Chwefror Parch. Eleri Lloyd Jones
13 Chwefror: Y Gweinidog

Oedfaon am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Geni

Llongyfarchiadau i Ceri a David, Stryd y Ffynnon, ar enedigaeth mab bach, Ethan John. Rydym, hefyd, yn llongyfarch John a Myfanwy, Stryd y Ffynnon, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy hen nain, hefyd, sef Mrs Olwen Williams, Maesygarneidd, a Mrs Nans Owen, Rhos Williams. Mae pawb wedi gwirioni efo'r bychan.

Diolch

Dymuna Richard Alun a Beryl Williams, Stryd Goronwy, a'r teulu, ddiolch o galon am yr holl gardiau, galwadau ffôn, a rhoddion er cof a dderbyniasant ar achlysur trist o golli brawd Richard, sef y diweddar Eifion Williams, Arafa Don.

Pen-blwydd Arbennig

Ym mis Ionawr mae John Lloyd Williams, Tan Treflys, yn dathlu ei ben-blwydd yn wyth deg oed. Llongyfarchiadau mawr i chi John. Dymunwn ddathliad hapus, a gyrrwn ein cofion atoch chi a Margaret, gyda phob dymuniad da i'r dyfodol.

Newydd Trist

Daeth newydd trist inni yn ddiweddar am farwolaeth Miss Bates, Ciltwllan, ond a oedd, bellach, oherwydd ei gwaeledd, wedi ymgartrefu ym Mhlas Hedd, Bangor. Roedd Miss Bates wedi byw yng Nghiltwllan am flynyddoedd. Roedd hi'n berson distaw, a threuliai llawer o'i hamser yn cerdded llwybrau'r ardal gyda'i chi, gan gael sgwrs gyda hwn a'r llall.

Adref o'r Ysbyty

Braf yw gweld Len Williams, Ffordd Gerlan, wedi dod adref o'r ysbyty ac yn gwella. Rydym yn dymuno'r gorau ichi i'r dyfodol Len; cymerwch bethau'n ysgafn am dipyn rŵan.

Mae'n braf hefyd, gweld Huw Jones, Wern, adref ac yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn gyrru ein cofion atat, Huw.

Salwch

Rydym yn gyrru ein cofion at sawl un o drigolion yr ardal sydd mewn ysbytai ar hyn o bryd: John Owen, Stryd y Ffynnon, sydd mewn ysbyty yng Nghaer;

Anita Williams, Gwernydd, sydd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon; Bess Williams,

Stryd Goronwy, sydd yn Ysbyty Llandudno; Phil Watts, Ffordd Abercaseg, sydd hefyd yn Ysbyty Llandudno. Pob dymuniad da i chi i gyd, a brysiwch wella.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Pat a Joan Sturrs, Ffordd Abercaseg, a Martin a Rhiannon Sturrs, Stryd y Ffynnon yn eu profedigaeth o gollir ewythr, sef y diweddar Harry Roberts, Bontuchaf, a fu farw yn ddiweddar.

Twydd Garw

Blwyddyn newydd dda i chi i gyd. Mae'n anodd credu fod y Nadolig a Chalan wedi mynd heibio mor sydyn, a bod 2011 gyda ni yn awr. Tros yr Wyl cafwyd eira mawr yn yr ardal, a effeithiodd yn bur ddrwg ar Gerlan. Diolch i Gyngor Gwynedd am agor y ffordd i'r pentref, ac am ei chadw'n agored o dan amgylchiadau anodd. Diolch, hefyd, i bawb a fu'n cynorthwyo eu cymdogion mwy bregus yn ystod y twydd garw.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda ☐
☎ 600853

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Clare Davies, Dolhelyg, ar ei dyweddiad ag Andrew Butterfield yn ddiweddar.

Dwy Ddamwain

Anfonwn ein cofion at Ron Williams, 68 Bro Emrys, a'i wyres, Lorna Sanderson, yn dilyn eu damweiniau yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Pritchard, 49 Bro Emrys, ar farwolaeth mam Mrs Pritchard yn Glasinfryn.

Ysbyty

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Marie Jones, 67 Bro Emrys, sydd yn yr ysbyty.

Hen Daid a Nain

Llongyfarchiadau i Llew ac Enfys Jones, 2 Cae Gwigin, ar ddot yn hen daid a hen nain unwaith eto. Ganwyd hogyn bach i'w hwyres Manon a'i gŵr Stephen ar 8 Ionawr.

Eglwys Maes y Groes

Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth sydyn Derek Humphreys, 5 Lôn Ddŵr, ym mis Rhagfyr. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig John Matthews. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at y teulu i gyd.

Ni chafwyd gwasanaeth dros benwythnos y Nadolig a bu raid gohirio'r Gwasanaeth Carolau hyd at y Sul cyntaf o'r flwyddyn newydd oherwydd y twydd garw. Roedd nifer yn bresennol a'r gwasanaeth dan ofal y ficer gyda Geraint Gill wrth yr organ. Darllenwyd y lliθοedd gan aelodau o'r eglwys ac fe gafwyd sieri a mins peis ar y diwedd.

Ein cofion at Phil Watts a'r teulu sydd yn Ysbyty Llandudno, ac at Vera Hughes yn Ysbyty Eryri. Gwellhad buan hefyd i Olwen Thomas yn Ysbyty Gwynedd.

Capel Bethlehem

23 Ionawr: Y Parch. Dafydd Job, Bangor;
30 Ionawr: Y Gweinidog;
6 Chwefror: Y Parch. Reuben Roberts;
13 Chwefror: Y Parch. Gwenda Richards, Caernarfon;
20 Chwefror: Y Gweinidog.

Oedfaon am 2.00.
Croeso cynnes i bawb.

Plant Ysgol Sul Bethlehem yn cyflwyno Drama'r Geni



Ysgol Sul Capel Bethlehem

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Nadolig ar bawn Sul, 12 Rhagfyr, gyda phlant yr Ysgol Sul yn cyflwyno Drama'r Geni. Wedi'r oedfa mwynhawyd parti Nadolig yn y festr. Gwnaed casgliad arbennig o £100 tuag at waith Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y prawn.

Bwrlwm Bethlehem

Yn dilyn y mwynhad a gafwyd yn Galeri, Caernarfon ac yn ein cinio Nadolig yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda, mae'n dda dweud nad yw'r aelodau yn anghofio'r ochr ddyngarol sydd i'r Bwrlwm. Eto yn 2010 cefnogwyd gwaith pump o elusennau drwy gyfrannu £100 yr un i Ambiwllans Awyr Cymru, Cyfeillion Ysbyty Gwynedd, Hosbis yn y Cartref Gwynedd, Hosbis Dewi Sant a Tŷ Gobaith.

Ffair Nadolig Capel Bethlehem

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Ffair Nadolig lwyddiannus. Gwnaed elw o £573.00

Plant Cymdeithas Capel Bethlehem Talybont (Diwedd y 50 degau)

Rhes Gefn: (Fedrwh chi lenwi'r bylchau?) Iris Hughes, Helen Hughes, Freda Roberts, Gwyneth Roberts, Iona Hughes, Edwina Williams, Helen Wyn Jones, Eva Jones, Gwyneth Miles, Emyr Wyn Hughes, Gareth Roberts, Kenneth Brown, Robert Morris.

Rhes Ganol: Avril Jones, Eleri Griffiths a'r diweddar Robert (Bobby) Jones.

Rhes Flaen: Jean Jones, Alun Williams, Glyn Armstrong, Olwen Armstrong, Yvonne Williams, Ann Ifora Thomas, Brenda Roberts, Einir Wyn Thomas, ?, ?, ?, Richard Jones, Gwynfor Jones, Edward Thomas.

Diolch i Ken Brown, Y Felinheli (Talybont gynt) am y llun.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ 600689

Gwellhad

Mae Mrs Eirlys Jones, 4 Braichmelyn, wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn, ac anfonwn ein dymuniadau gorau iddi am wellhad buan. Ein cofion hefyd at John ei phriod.

Dymuna'r ddau ddiolch i bawb o'r teulu, ffrindiau a chymdogion a fu mor garedig a gofalus ohonynt dros y cyfnod anffodus diweddar. Hoffai Eirlys ddiolch yn arbennig i'r gwragedd o'r pentref sydd yn gweithio i'r 'Rapid Response' am y gwasanaeth ardderchog a gafwyd er gwaethaf y tywydd garw.

Mae Mrs Gwyneth Parry, Bryn y Coed, yn yr ysbyty yn Lerpwl ar hyn o bryd, ac anfonwn yr un dymuniadau iddi hithau am wellhad llwyr a buan.

Bu farw Mrs Christine Walker, 15 Gernant, yn yr ysbyty ar ôl gwaelled hir a blin. Cydymdeimlwn â'i chymar Elwyn, Karl a'r teulu, a Siân a Ceri a'r teulu yn eu colled.

**Glasingfryn
Caerhun**

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasingfryn,
Bangor LL57 4UP
☎1248 351067
Marred567@btinternet.com

Cydymdeimlo

Bu farw Mrs Jennie May Owen, 10 Caerhun, ychydig cyn y Nadolig. Cydymdeimlwn gyda'i gŵr Glyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Roedd Mrs Owen yn ddynes garedig iawn ac yn barod iawn ei chymwynas i'w chymdogion yn yr ardal, bob amser yn siriol a chymdeithasol. Bydd colled mawr ar ei hôl gan ei theulu a'i chymdogion a ffrindiau.

Bingo Bach

Oherwydd y tywydd garw cyn y Nadolig, roedd yn rhaid gohrio'r Bingo er budd Tŷ Gobaith hyd nes y mis hwn. Wrth i'r Llais fynd i'r wasg, nid oedd dyddiad wedi ei bennu ar gyfer y noson. Gwyliwch allan am bosterio o amgylch yr ardal.

Clwb Cant y Ganolfan

Diolch yn fawr i bawb o aelodau'r Clwb Cant am eich

cefnogaeth eleni. Mae'r Clwb Cant yn ffynhonnell dda o incwm tuag at gynnal y Ganolfan trwy gyfrannu £1 y mis, neu £12 am y flwyddyn, gyda hanner yr elw yn mynd i'r Ganolfan a'r hanner arall mewn gwobrau. Gobeithio y byddwch yn parhau i gario ymlaen y flwyddyn hon, ac os nad ydych yn aelod yn barod – beth am ymaelodi? Mae'r taliad cyntaf yn ddyledus ddiwedd Ionawr. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Mair Griffiths 01248 352966.

Enillwyr Mis Rhagfyr

£20 – 9 – Margaret Griffith
£15 – 77 – Huw Griffiths
£10 – 19 – June Hughes

Sefydliad y Merched

Ar noson oer iawn cyn yr eira mawr cawsom groeso cynnes gan staff Plas Menai i ddatlu ein cinio Nadolig. Fe gawsom ginio bendigedig a mwynhau cwmni difyr a braf i ddiweddu'r flwyddyn 2010.

Edrychwn ymlaen yn awr at y flwyddyn newydd gan dymuno iechyd da i bawb i fwynhau ein rhaglen ddiddorol ar gyfer 2011. Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni. Rydym yn cyfarfod yn y Ganolfan yng Nglassingfryn yn fisol.

Pentir

Siân Shakespear,
Craigfryn, Pentir LL57 4EA
☎ 01248 351378

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

**Eglwys Sant
Cedol****Clwb 100
Rhagfyr 2010**

1af Rhif 21
Elsbeth Mitchelson, Rhiwlas
2il Rhif 15
Terry Jones, Caernarfon
3ydd Rhif 16
Donna Redvers Jones,
Llangristiolus

Gwasanaeth Carolau

Nos Sul, 5 Rhagfyr, cynhaliwyd gwasanaeth carolau o dan arweiniad y Parchedig Nia C. Williams a'r Curad y Parchedig Jennie Hood. Croesawyd i'n plith ddisgyblion ac athrawon Ysgol Rhiwlas, a chafwyd datganiad gwych ganddynt o amrywiol garolau. Braf oedd gweld cynifer wedi troi allan ar noson oer a rhewllyd. Diolch am eich cefnogaeth.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad i Glyn Owen, Brian, Melfyn, Einir a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a'n ain annwyl, sef y ddiweddar Mrs Jennie May Owen, 11 Caerhun. Rydym hefyd yn cydymdeimlo ag Eirlys Gordon Jones, Alvan, Kevin a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl, sef y diweddar Mr John Francis Jones, Rhiwenfa, Rhiwlas.

Dymuniadau Gorau

Dymunwn flwyddyn newydd dda i holl drigolion bro'r Llais. Cofiw'n am y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi, neu mewn cartrefi preswyl, gan gofio yn arbennig am Anti Maggie, 2 Rhes Penrhyn, Waun Pentir, a hefyd Miss Molly Keen, gynt o 6 Rhyd y Groes, Pentir sydd ar hyn o bryd mewn cartref yn Llanfairpwll.

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 352835

Geni

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Robert a Sheila Reid, 15 Bro Rhiwen ar enedigaeth eu mab Jac Lee Robert Reid ar 12 Rhagfyr. Yr un yw ein dymuniad i Cheryl a Daniel, Stryd Uchaf, wrth iddynt ddathlu geni eu mab Daniel Llyr.

Marwolaeth

Ar ddydd olaf Rhagfyr yn 73 mlwydd oed bu farw John Francis Jones, Rhiwenfa. Priod Eirlys a thad Alvan a Kevin. Yn wreiddiol o Rachub, roedd yn frawd i Thomas a'r diweddar Robert ac yn frawd yng nghyfraith i Heddwen a Gwyneth. Er ei fod yn berson tawel ei natur roedd bob amser yn barod ei sgwrs. Yn dilyn ei ymddedioliad o fod yn gweithio gydag Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd roedd i'w welf yn aml yn gweithio yn ei ardd yn gofalu am y coed o flodau saith liw arbennig oedd ganddo. Gan fod yr ardd yn ffinio â'r ffordd byddai aml un â'i heibio yn falch o weld John i'w gael stelc, sgwrs a rhoi'r byd yn ei le.

Mae ein cydymdeimlad gydag Eirlys, Alvan, Kevin a'u teuluoedd yn gywir a diffuant. Cydymdeimlwn hefyd gyda holl gysylltiadau eraill teulu John. Bu gwasanaeth ei angladd yn Eglwys Sant Cedol, Pentir, ddydd Gwener, 7 Ionawr gyda'r Parchedigion Nia Williams a Geraint Hughes yn gwasanaethu. Fe'i claddwyd ym mynwent yr Eglwys.

Yn ei gartref ar Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, bu farw Bill Harrison yn 80 mlwydd oed. Bu Bill, ei briod Beryl a'i ferch Christine yn cadw Siop y Post a'r Swyddfa Bost yn y pentref am nifer o flynyddoedd, gyda Beryl yn trin gwalltiau merched yn ogystal. Wedi ymdddeol, aethant i fyw yn Llanddona, Ynys Môn, ac yna i'r Felinheli. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Beryl, Christine a Robert ei mab yn eu profedigaeth o gollu Bill.

Person arall y gwelir ei gollu gan nifer yn y pentref yw John Griffith a fu farw yn ei gartref ar 29 Rhagfyr. Fel John Glo y byddai'r mwyafrif yn ei adnabod gan y bu John a'i ddau frawd, y diweddar Eifion a Dafydd yn cario glo i'r pentref am gyfnod maith. Y tri yn ffyddlon iawn i'w cwsmeriaid ym mhob tywydd.

Cofiw'n amdanynt fel gweithwyr caled a bob amser yn fonheddig eu hymarweddiad.

Dymunwn gydymdeimlo hefyd gyda Dilys Parry, Bryn Tirion. Bu farw ei hewyrth, brawd i'w thad yn Neiniolen ddiwedd Rhagfyr.

Dylanwad Ysgol Sul

Cafwyd portread o Lleuven Steffan, Bryn Llys, ar Radio Cymru yn ddiweddar gan ddilyn ei hynnt gerddorol er pan symudodd i fyw yn Llydaw. Erbyn hyn mae Lleuven yn ddigon rhugl yn y Llydaweg i'w galluogi i hyfforddi yn yr unig ysgol uwchradd sy'n dysgu trwy gyfrwng yr iaith trwy Lydaw gyfan. Ond yr hyn oedd yn ddiddorol i gyfeillion Eglwys Pisgah oedd clywed ei thad Steve Eaves yn egluro sut y dechreuodd Lleuven ymddiddori mewn canu. Byddai hi a'i chwaer Manon yn mynychu Ysgol Sul Pisgah yn rheolaidd o Sul i Sul. Wedi dod adref dringai i ben cader a gorfodi i'w rhieni eistedd i wrando arni yn canu'r caneuon a glywsai yn yr Ysgol Sul. Bydd Lleuven yn rhyddhau CD newydd yn y gwanwyn. Caneuon Cymraeg fydd ar yr un a gyhoeddir yng Nghymru a chaneuon Llydaweg ar yr un a gyhoeddir ar yr un adeg yn Llydaw.

Dymuno Gwellhad

Anfonwn ein cofion at Jane (Ruby) Dolny, 21 Bro Rhiwen, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Gobeithwn ei gweld gartref yn fuan.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Blwyddyn Newydd Dda

i bawb o'r ardal a chofiwch anfon eich newyddion i'n gohebwyr lleol mewn da bryd! Gwnewch yn siŵr fod eich newyddion chi yn newyddion i'r ardal gyfan.

Damwain

Daeth damwain i ran Eurwen Williams, Tyddyn Dicwn, pan syrthiodd ger y tŷ a thorri ei chlun. Bu'n rhaid cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd a bu raid iddi fod yn gaeth yn ei gwely yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, dros y Nadolig. Cofion cynnes a pharhaed i wella ac i gryfhau.

Mewn Ysbyty

Gwellhad buan a llwyr i Beti Whitehead, Gorwel Deg,

Tregarth, wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Ar hyn o bryd mae Bet yn gwella ac yn cael seibiant byr yng Nghartref Plas Ogwen, Bethesda. Yno mae ei phriod Fred ac anfonwn ein cofion cynhesaf at y ddau.

Un arall sydd heb fod yn teimlo'n dda yn ddiweddar yw Megan Roberts, Bryn Difyr. Bu hithau am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dod adre nid oedd yn rhy dda ei hiechyd dros y Dolig. Cafodd ofal ardderchog gan Wyn ei gŵr, er iddo yntau syrthio a thorri asen rai wythnosau'n ôl. Llwyf iachâd i'r ddau ohonoch.

Syrthio yn ei chartref wnaeth Nancy Price Roberts, Cilan, Braich Talog, a bu am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ac yna yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Gwellhad buan i chi.

Merched y Wawr

Daeth aelodau'r gangen ynghyd nos Lun, 6 Rhagfyr i fwynhau noson Nadoligaidd yng nghwmni y grŵp cerddorol, dawnus o Fethesda a'r cyffiniau, sef Y Boncathod. Estynnodd y Llywydd, Angharad Williams groeso i'r aelodau oedd yn bresennol ac yn arbennig i'r Boncathod. Drwy gyfrwng carolau a chaneuon yn gysylltiedig â'r Nadolig swynwyd pawb gan eu cyflwyniadau naturiol a cherddgar ac er mai dim ond wyth o nifer oeddynt roedd eu dehongliad o'r caneuon a'r storïau o gyloch eu datganiadau yn ddiddorol dros ben. Roedd un aelod yn dod yn wreiddiol o'r Almaen ac wedi dysgu'r Gymraeg yn ardderchog a chafwyd caneuon Nadoligaidd oedd yn hanu o'r wlad honno a chefnidir y gân wreiddiol ganddi. Diolchwyd i'r Boncathod am ddod i'r gangen ar fyr rybudd ac am roi noson oedd wrth fodd yr aelodau gan Angharad Huws. Roedd y banded yng ngofal Anwen, Olwen, Buddug a Dilys. Anfonwyd cyfarchion i un o'r aelodau oedd wedi cael damwain a thorri ei braich, sef Carys Williams. Methodd amryw o'r aelodau â bod yn bresennol oherwydd y tywydd gaeafol. Bydd y gangen yn cyfarfod nos Lun, 10 Ionawr, a thema'r noson fydd 'Aromatherapi'. Croeso cynnes i bawb o'r aelodau ac i aelodau newydd.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Rhagfyr

32 Ellen Griffiths £15
12 Sulwen Jones £10
25 A Williams £5

Capel Shiloh

Gwasanaeth Nadolig

Bu Ysgol Gynradd Tregarth ac Ysgol Bodfeurig yn cynnal eu gwasanaethau Nadolig yng Nghapel Shiloh, nos Iau, 17 Rhagfyr, a deallwn iddynt roi perfformiad ardderchog. Diolch iddyn nhw am eu teyrngarwch i'r capel.

Roeddynt yn llwus iawn mai'r diwrnod hwnnw roeddynt wedi'i ddewis oherwydd daeth y tywydd garw a'r eira mawr a'r rhew ar y diwrnod canlynol.

Siôn Corn yn methu â dod

Oherwydd yr holl eira a rhew bu'n rhaid gohirio amryw o wasanaethau arbennig y Nadolig yn Shiloh. Methwyd â chynnal Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul a siomiant mawr oedd na chafodd aelodau'r Ysgol Sul gyflwyno stori'r geni eleni gyda chymorth rhieni a ffrindiau'r aelodau. Roedd parti Nadolig i bawb i fod i ddilyn y gwasanaeth a Siôn Corn i alw, ond chyrhaeddodd o ddim! Da yw deall ei fod wedi galw yn y Capel ar Noswyl Nadolig gydag anrheg i bawb oedd wedi dysgu eu gwaith mor dda. Bydd cyfle i agor y sach a adawodd ar ôl yn yr Ysgol Sul ar 9 Ionawr.

Siomiant hefyd oedd gorffod gohirio'r gwasanaeth ar Noswyl y Nadolig oherwydd y tywydd. Roedd y gwasanaeth yma yn wasanaeth undebol gyda'r Parchedigion Gwynfor Williams a'r Parchedigion John Matthews yn cymryd rhan.

Cydymdeimlwn gyda'r Parchedigion Gwynfor Williams a'i briod Mrs Katie Williams, Caernarfon. Bu farw brawd Mrs Williams ychydig amser cyn y Nadolig yn ei gartref yn Lloegr.

Gwasanaethau yn Shiloh am yr wythnosau nesaf:

16 Ionawr

10.30 Yr Ysgol Sul
5.30 Y Parchedigion Olaf Davies, Bangor

23 Ionawr

10.30 Yr Ysgol Sul
5.30 Y Parchedigion Geraint Roberts, Porthaethwy

30 Ionawr

10.30 Yr Ysgol Sul
5.30 Islwyn Hughes, Llangoed

6 Chwefror

10.30 Yr Ysgol Sul
5.30 Y Parchedigion Gwynfor Williams

13 Chwefror

10.30 Yr Ysgol Sul
5.30 Y Parchedigion Philip Barnett, Deganwy.

20 Chwefror

10.30 Yr Ysgol Sul
5.30 Y Parchedigion Dafydd Hughes, Caernarfon

Mynydd Llandygái

Theta Owen.

Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Genedigaeth

Llongyfarchiadau gan y teulu i gyd i Lynda Davies ar enedigaeth merch fach, Lauren Wyn, a llongyfarchiadau i mam ar enedigaeth Lauren Wyn, ein chwaer fach, gan Leia a Lois.

Diolch

Diolch i Rhian Ward ar ein rhan i gyd yn Arafon am gael y Cyngor i ddod â'r graean a chlirio'r eira.

Ffair Nadolig

Da oedd gweld nifer fawr yn y Neuadd i'r Ffair Nadolig. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth. Ar ran pensynwyr y pentref diolchwn i bwyllgor y Neuadd am ei rodd o focs bisgedi. Maent yn cofio amdanom bob blwyddyn. Diolch o galon i chwi.

Damwain

Cafodd William Frith ddamwain yn yr eira a bu yn Ysbyty Gwynedd. Erbyn hyn mae newydd ddod adref. Gwellhad buan i chwi William!

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

16 Ionawr

9.45 Boreol Weddi

23 Ionawr

9.45 Cymun Bendigaid

30 Ionawr

10.00 Cymun Bendigaid ar y cyd gydag Eglwys St. Ann a St. Mair (yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn).

6 Chwefror

9.45 Gwasanaeth Teuluol

13 Chwefror

9.45 Cymun Teuluol

20 Chwefror

9.45 Boreol Weddi

Ni chynhelir y Gymdeithas ym mis Ionawr ond edrychwn ymlaen at eich gweld ar nos Wener, 18 Chwefror am 7 o'r gloch. Y wraig wadd fydd Mrs Gwenllian Roberts, Swyddog Ailgylchu Gwynedd. Croeso cynnes i bawb.

Yn anffodus bu'n rhaid cymryd y penderfyniad, ar ôl cyfnod o ddeng mlynedd, i ddod â phrynhawniau'r Te Bach i ben. Diolch i'r holl gyfeillion a ddaeth atom am banded a sgwrs ac os bydd modd ailgychwyn yr achlysur unwaith eto yn y dyfodol bydd yr hysbysiad yn Llais Ogwan.

Ein dymuniadau gorau a'n cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd.

Gwibdaith Hen Frân

Pwyllgor Apêl Bethesda Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012:



Rhai o'r plant yng nghwmni Gwibdaith Hen Frân yn y Clwb Criced a Bowlio

Gig Gwibdaith yn y Clwb Criced

Cafwyd pawns hwyliog iawn yn y Clwb Criced ddiwedd y flwyddyn yng nghwmni'r band bywiog o Flaenau Ffestiniog - Gwibdaith Hen Frân. Hysbysebwyd y digwyddiad fel Gig i'r Teulu ac yn wir roedd y Clwb yn orlawn o blant o bob oed a thadau a mamau a neiniau a theidiau, i gyd yn mwynhau y gerddoriaeth fyw. Diolch i Kathy siop bapur am ei chymorth, yn gwerthu tocynnau i'r gig a thocynnau raffl am wythnosau ymlaen llaw, ac i bawb fu'n helpu ar y drws, yn y gegin ac yn y blaen ac i swyddogion y Clwb Criced am eu cefnogaeth. Rydym yn hynod falch ein bod wedi llwyddo i godi £800 i'r Apêl, a hynny tra'n mwynhau ein hunain!

Bore Coffi

Byddwn yn cynnal Bore Coffi yn Neuadd Ogwen fore Sadwrn, 12 Chwefror. Dim ond criw bach ohonom sydd ar y Pwyllgor Apêl Lleol ac oherwydd hynny yr ydym yn chwilio am bobl i helpu yn ystod y bore, neu i gyfrannu gwobrau i'r raffl a phethau i'w gwerthu - cacennau, bric a brac ayb. - byddem yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad. Os oes gennych awr i'w sbario ac y medrwch helpu cysylltwch hefo ni os gwelwch yn dda 602949 neu 602032 Diolch.

Côr Meibion y Penrhyn



Llongyfarchiadau

Gwilym Owen yn cael ei anrhegu am wasanaeth di-dor o 50 mlynedd fel aelod o adran y bäs yn y Côr.

Côr Meibion Dinas Bangor

Yn ystod misoedd yr Hydref a Tachwedd bu'r Arweinydd James Griffiths oddi cartref yn arholi cerdd yn Awstralia mewn sawl canolfan, o Cairns i Sydney. O ganlyniad i hyn yr oedd y Côr yng ngofal medrus yr Is-arweinydd, Gwilym Lewis, a'r Cyfeilydd, Lowri Roberts Williams. Cafwyd sawl ymarfer prysur iawn yn ystod y cyfnod hwn yn arwain at y Nadolig. Bwriedir ailgychwyn ymarferion ar ôl y Nadolig ar nos Fercher, 12 Ionawr yn Ysgol y Faenol. Prif weithgaredd 2011 fydd y daith i Awstralia ym mis Medi. Mae croeso cynnes i aelodau newydd.

PWY SY'N COFIO DDOE?

© Dr J. Elwyn Hughes

Newid Enw Bethesda – Rhan 1

Y dydd o'r blaen, wrth chwilota ymhlith fy nghasgliad o doriadau papur-newydd, deuthum ar draws llythyr diddorol dan y teitl 'Enw newydd Bethesda'. Gwaetha'r modd, does na dyddiad nac enw'r awdur ar y llythyr, nac enw'r papur chwaith, er bod awgrym yn y llythyr mai yn Y Dinesydd y cyhoeddwyd ef a hynny tua 1926.

Cae Garw

Meddai'r awdur: Rhoddwyd yr enw Bethesda i ddechrau ar Capel yr Annibynwyr, yr hwn a adeiladwyd yn y flwyddyn 1920. Enw'r lle yr adeiladwyd y Capel arno oedd y Wern Uchaf, yng nghwr Cae Garw. Nid oedd yn y lle yr adeg honno ond tafarn a thŷ, sef y Star a thŷ rhyw John Williams, Cochwillan gynt. Mae rhan helaeth o Bethesda wedi ei adeiladu ar Cae Garw a dywedir mai garw iawn oedd, yn llawn mieri a drain, etc.'

Meddai Ernest Roberts yn Cerrig Môn: 'Erbyn 1822, roedd yr enw [Bethesda] wedi ei dderbyn yn swyddogol ...' ar y tai a godai'n gyflym yng nghyffiniau'r Capel. Mae'n rhaid nodi mai adeilad bychan oedd y capel a godwyd ar ochr ffordd newydd Thomas Telford ym 1820 – cafodd ei ailadeiladu ym 1828 a'i ailwampio, onid ei drydydd-godi, ddechrau'r 1870au, ac wyneb y capel hwnnw

sydd wedi ei gadw ar yr 'Arfa Don' presennol (ef enw un o donau'r cyfansoddwr adnabyddus, R. S. Hughes, a fu'n organydd Capel Bethesda – ac mae plac yn ei goffáu ar ei gartref yn 8 Rhos Douglas).

Cae Star

Mae'n werth ymhelaethu mymryn ar y tafarn a grybwyllir uchod, sef y Star. Mae'n debyg mai siop E. T. Hughes oedd hon – y Porcsiop yng nghof rhai ohonom (sef rhif 79 Stryd Fawr yn ddiweddarach) ond yn y dyddiau cynnar hynny pan oedd y Stryd Fawr yn dechrau datblygu, roedd llain o dir yn perthyn i'r Star yn rhedeg ger glan afon Ogwen – a hwnnw oedd y Cae Star y codwyd nifer o dai arno ymhen ychydig wedyn – safle'r maes parcio erbyn heddiw. Roedd y ffordd at y tai fwy neu lai'n union lle mae'r fynedfa i mewn i'r maes parcio heddiw, ac i'r chwith wedyn. Pe byddid wedi mynd yn syth ymlaen (gydag ochr Neuadd Ogwen ar y dde), byddech wedi mynd heibio i dŷ tafarn y Territorial Arms ac i lawr at y felin ar y chwith ar lan yr afon. Hon oedd Stryd y Felin (a drowyd yn Mill Street pan aeth dwyieithrwydd dros ben llestri tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg!). Ac yn Cae Star y daeth Caradog Pritchard o hyd i'w 'Wil Colar Startsh' yn Un Nos Ola Leuad – adroddais hanes William Hughes Cae Star yn Byd Go lawn Un Nos Ola Leuad. Yr hyn sy'n syndod, ac yn wirioneddol anffodus, ydi nad oes unrhyw lun o gwbl o Cae Star – hyd y gwn i – wedi goroesi.

I'w barhau

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen



Mae Alun Ffred AC Arfon, y Gweinidog dros Dreftadaeth yn Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i Arthur Wyn Rowlands, Cadeirydd y Gangen, i weithredu fel ei Gynrychiolydd (Asiant) yn yr etholiad i'r Cynulliad ym mis Mai. Mae'r Gangen yn llongyfarch Arthur ar dderbyn y fraint ac yn siŵr y bydd yn gwneud y gwaith yn dda iawn.

Dywedodd Arthur:

"Braint o'r mwyaf i mi oedd cael cynnig i fod yn Asiant i Alun Ffred Jones yn yr etholiad ar gyfer y Cynulliad ym mis Mai. Rydym yn gwybod am y gwaith gwych y mae Alun Ffred wedi ei gyflawni drosom yn lleol ac yn genedlaethol ers cael ei ethol i'n cynrychioli yma yn Nyffryn Ogwen bedair blynedd yn ôl. Felly, yng ngeiriau Dafydd Iwan "Dewch Gymry hen ac ifanc, dewch i'r Gad, i'r Gad..."

Refferendwm

Yn ogystal ag ymgyrchu dros Alun Ffred mae aelodau o'r gangen yn cydweithio â'r pleidiau eraill i geisio ennill y refferendwm ar 3 Mawrth i gael pŵerau deddfu a fydd yn galluogi'r Cynulliad i basio deddfwriaeth ar gyfer Cymru heb orfod mynd trwy'r broses hirwntog ac aneffeithiol o ofyn caniatâd ymlaen llaw gan San Steffan bob tro. O gael y pŵerau bydd ein Cynulliad yn gallu cyflawni mwy o bethau fydd

yn fuddiol i bobl Cymru. Cafodd yr Ymgyrch yn y gogledd-orllewin ei lansio yng Nghlwb Criced Bangor ar 5 Ionawr gydag Alun Ffred Jones yn siarad ar ran y Plaid. Siaradwyd hefyd gan gynrychiolwyr y tair prif blaid arall. Roedd nifer o aelodau'r gangen ymhlith y gynulleidfa o 125 o bobl. Bydd yr ymgyrch leol yn cael ei lansio yng Nghaernarfon ar 20 Ionawr. Os hoffech helpu yn yr ymgyrch, cysylltwch â Paul Rowlinson, rhif ffôn 605365 neu anfonwch e-bost at : aarfon@iedros gymru.com <mailto:arfon@iedros gymru.com>

Peidiwch â cholli eich hawl i bleidleisio!

Er mwyn gallu pleidleisio yn y refferendwm pwysig hwn mae'n hanfodol eich bod ar restr yr etholwyr. Os nad ydych wedi cofrestru, neu os nad ydych yn siŵr eich bod ar y gofrestr mae'n rhaid cofrestru erbyn 16 Chwefror. Gallwch holi trwy ffonio'r rhif (01286) 679058 neu anfon e-bost at: etholiad@gwynedd.gov.uk. Mae ffurfienni cofrestru ar gael gan y Cyngor, gan aelodau'r Gangen neu gallwch lwytho un i lawr o'r wefan: www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1067/voterregistrationform.pdf



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.gov.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

Hefyd
BISTRO'R BRENIN

Oriau Agor
Nos Wener a Nos Sadwrn
6.30 - 9.30

Cinio Dydd Sul
12.00 - 3.00

I sicrhau Bwrdd Ffoniwch 602550

CROESEWIR PARTÏON

Am gymorth:

i gychwyn prosiect
i gael hyfforddiant
i geisio am grant
i redeg mudiad
i wirfoddoli



Cysylltwch â Mantell Gwynedd
yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851
Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy warant 3420271

electricals
andrew duggan

Atgyweiriadau teledu a fideo,
offer sain, derbynwyr lloeren.
Hefyd gwerthiant a gwasanaeth

38 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AN
Ffôn/Ffacs 01248 602584

Gorsaf betrol
BERAN

Deiniolen
Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 6.00 am - 9.00 pm bob dydd

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau newydd
Cardiau pen-blwydd • Wyau
Nwyddau groser • Melysion
Tocynnau loteri ar werth yma.

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Gwasanaeth Trin
a Thorri Gwallt Ceri



1 Bryn Eglwys
Llanllechid
Gwynedd
LL57 3LE

Ffôn: 07796 583 203

“J.R.”

SGAFFALDWYR

Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

MODURDY
FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchenogion
I.D. Hughes ac A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723

Ffacs: 605068

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ ☐ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ 601031

Y Douglas Arms

* Llundiaeth i Bartion * Te Cynhebrwng *
* Te a Choffi *

ORIAU AGOR
Llun - Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 - 12.00
Sul: 1.00 - 3.30 a 8.00 - 11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

MODURON
PANDY
Cyf.

Tregarth

Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

BYSUS
Di. J. Owens
RHIWLAS

☎ 01248 361044 a 07771 634195



BYSUS 0 25 - 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL
ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTION AC ATI.

Bysus Gwydd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY.
SERVICIUM 1997. PERCHENOGION: DEREK OWEN

Beth sydd ymlaen yn y Dyffryn?

NEUADD OGWEN, BETHESDA



BOREAU COFFI

22 Ionawr: Cyfeillion Ysgol Abercaseg
29 Ionawr: Cynnal Gofalwyr
05 Chwefror: Eglwys Glanogwen
12 Chwefror: Eisteddfod yr Urdd 2012
19 Chwefror: Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

Calendr Llais Ogwan



Golygfeydd Lleol mewn Lliw Llawn

Pris £3.50

Mynnwch eich copi.

Ymgynghori Ynglŷn â Pharc Orme's, Bethesda

Neuadd Ogwen, Dydd Sadwrn
5 Chwefror 2011 (9.30-12.00)

Mae plant ysgolion cynradd y dyffryn wedi cyfrannu tuag at gynlluniau i uwchraddio'r parc. Mae croeso cynnes i chi ddod draw i weld ffrwyth eu gwaith ac i roi eich barn ynglŷn â'r prosiect.

Os na fyddwch yn medru mynychu ar y dyddiad uchod bydd y cynlluniau hefyd ar gael i'w gweld yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon rhwng 7 ac 11 Chwefror.

Am fwy o fanylion cysylltwch ag:
Amanda Davies 01248 605276
(amandadavies@gwynedd.gov.uk)

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

Festri Capel Jerusalem

'LLENWI'R CWPAN'

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

NEUADD OGWEN BETHESDA

GYRFA CHWIST

Ionawr 25

Chwefror 8 a 22
am 7.15

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

HYSBYSEBU YN RHAD AC AM DDIM YN Y LLAIS

i gymdeithasau a mudiadau yn
Nyffryn Ogwen
Hyd at y maint yma
(3" (750mm) X 1 golofn)

Cysylltwch â'r Trefnydd Hysbysebion

Neville Hughes (01248) 600853

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

yng Nghapel Jerusalem

Estynnir croeso cynnes i bawb i
oedfaon Sul

Bore: Gwasanaeth ac Ysgol Sul am 10 o'r gloch
Hwyr: Gwasanaeth am 5.30 o'r gloch

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Nos Lun, 14 Chwefror
Y Prifardd Ieuan Wyn

"Nes na'r Hanesydd?"
Dyffryn Ogwen trwy lygad
R. Williams Parry

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau.

Cist Gymunedol Gwynedd

Awydd £10,000 tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?

Mae'r gist gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,000 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egnïol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Rhian Dobson,
Swyddog Datblygu Chwaraeon
Rhif Ffôn: 01768 794 057
Epost: rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk



WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Sul
6.00 tan 8.00

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

◆ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ◆

Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth



Christina J. Phillips

Arddangosfa Gelf gan Christina J Phillips
8 - 29 Ionawr yn yr Arthaus, 61, Sgwâr
Kyffin, Bangor. Myneledad am ddim.
Ar agor ddydd Lun i ddydd Sadwrn.

Cylch Meithrin Cefnfaes

Sesiynau Dyddiol
9.15 - 12.15 o'r gloch
A oes gennych blyntyn
2 flwydd oed neu'n hŷn,
ac am iddo/iddi
ymuno mewn sesiynau
Meithrin hwyliog?
Cysylltwch â ni ar
07815 085 323
am ragor o fanylion!



MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Cylch Ti a Fi

Bob Bore Mawrth
9.15 - 10.45 am.

Canolfan Cefnfaes, Bethesda
Dewch am banded a sgwrs,
stori a chân

Ffôn: 602032

**Hysbysebwbch yn y
Llais: Cysylltwch â:
Neville Hughes
600853**

**JOHN ROBERTS
Paentiwr**



**Papurwr
Teilsiwyr**

**Symdol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995**

**Gareth Williams
Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS**

GWAITH CERRIG

JONES a WILLIAMS
Angen codi wal gerrig?
Eisiau wyneb newydd ar eich tŷ?
Cynllunio waliau a phatios gerddi

Beth am gysylltu â
Dau saer maen lleol

SAM A GETHIN
Gwaith o safon uchel
Sam 07879238990
Gethin 07823440865

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symdol: 07835487909

**LONDIS
BETHESDA**

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylys
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub*

Ffôn: 01286 870605

**Ymgymwrwr adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

**STEPHEN
JONES**



**TREFNYDD
ANGLADDAU**

Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi
Adnewyddu neu o'r newydd
Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda
Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001
Gwasanaeth personol ddydd a nos

**AUR
CLOGAU**

Gostyngiad o
20%
Os nad mewn sêl eisoes



**Siswrn Arian
Trin Gwallt Merched,
dynion a Phlant**
Vivien, Amanda, Jenny a Nicola
GEMWAITH AR WERTH
GWASANAETH TYLLU CLUSTIAU
☎601888




**Posh Paws
Tacluso Cŵn**

Busnes newydd lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m. - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu **07935324193**
Ebost: juliaposhpaws@btinternet.com



C.L. JONES

MASNACHWYR COED â NWDYDDAU ADEILADU

BETHESDA
Ystad Ddiwydiannol
Pantdreiniog
01248 600045

CAERNARFON
Ystad Ddiwydiannol
Cibyn
01286 676070

Danfon am ddim yn Lleol
Stoc Helaeth ac Amrywiol
Croeso i Gyfrifon Masnachol
Staff Cyfeillgar a Phroffesiynol
Popeth Ar Gyfer y Diwydiant a D.I.Y

LLANRWST
Parc Tŷ Gwyn
01492 640794

PWLLHELI
Yr Ynys, Mynytho
01758 730768

CHWILAIR MIS IONAWR COED

Yn y chwila'r hwn mae un o'r atebion wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Gwyddom fod Ll, Ch, Dd, Th ac yn y blaen yn **un** llythren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwila'r dangosir hwy fel dwy llythren ar wahân.) Atebion, gyda'r enw a'r cyfeiriad, os gwelwch yn dda, i André Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn **5 Chwefror**. Bydd gwobr o £5.00 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd neb wedi cael y 12 yn gywir rhoddir y wob'r i'r sawl fydd wedi cael y nifer fwyaf yn gywir.

BLWYDDYN Newydd Dda i chwi oll, a llawer o ddiolch am eich cyfarchion a chardiau.

Testun y Mis

Yn y chwila'r mis yma mae enwau deuddeg gwahanol math o GOEDEN.

Dyma atebion Rhagfyr:

Ceiriog, Crwys, Cynan, Eifion Wyn, Gerallt Lloyd Owen, Gwenallt, Hedd Wyn, I D Hooson, Ieuan Wyn, Menna Elfyn, Mererid Hopwood, Waldo Williams.

Cafwyd atebion cywir gan:

Mair Jones Bethesda, Marilyn Jones Glanffrydlas Bethesda, Alun Wyn Williams Gerlan, Gwenda Bowen Gerlan, Dilys A. Pritchard Jones Abererch Pwllheli, Elizabeth Buckley Tregarth, Dilys Edwards Ffordd Coetmor Bethesda, Beryl Griffith Pentir, Donna Coleby Preston, Huw Parry Jones Dolgarrog, Rosslyn Owen Rhosmeirch Ynys Môn, Mair Martin Llanfairfechan, Meirion Williams Manchester, Rosemary Williams Tregarth, Mrs Glenys Clark Tregarth, Elfed Bullock Maes y Garnedd Bethesda, Doris Shaw Llwyn Hudol Bangor, Eira Hughes Ffordd Ffrydla's Bethesda, Eirlys Edwards Central Garage Bethesda, Herbert Griffiths Tregarth, Merfyn a Laura Jones Penisa'r Allt Tregarth.

A	A	W	F	H	R	G	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U
T	S	V	S	H	E	I	W	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X
V	A	D	D	N	A	P	A	N	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y	Q	Z
G	R	H	D	C	B	N	U	F	I	Y	W	E	N	M	W	N	O	Y	R
B	I	A	E	S	E	Z	E	U	F	O	T	F	D	X	U	P	W	R	H
E	C	Q	R	H	D	W	E	D	H	A	L	O	Y	E	E	G	E	O	M
D	H	E	W	P	W	T	T	C	D	B	W	E	B	C	U	U	J	P	L
W	T	M	E	I	E	V	V	D	C	Y	B	Y	N	B	F	R	N	F	O
E	G	J	N	V	N	I	I	R	R	X	W	I	D	M	H	E	T	T	O
N	S	K	O	P	A	W	R	N	C	M	K	R	C	D	D	B	O	R	C
X	V	R	Y	H	R	S	T	E	M	R	E	F	O	D	E	Y	J	D	Z
H	B	C	W	O	I	S	C	G	R	A	I	X	Y	M	N	N	I	L	X
J	J	M	B	W	A	T	E	Y	X	M	D	W	X	K	A	F	U	P	C
O	Y	O	I	L	N	N	F	L	E	R	R	Z	Q	R	O	C	C	T	D
G	W	S	L	Z	E	E	B	E	E	W	A	J	K	J	C	L	Y	N	L
R	V	O	G	N	J	P	W	H	A	P	G	S	O	W	J	J	Q	S	U
L	F	S	N	V	T	X	E	L	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I
W	T	O	Z	H	K	V	L	C	O	L	L	E	N	A	G	B	N	K	A
C	E	L	Y	N	N	E	N	D	S	I	K	O	G	D	H	B	S	I	U
R	O	X	A	G	X	R	A	E	E	K	K	D	A	N	T	O	G	W	B

Enillydd Chwila'r mis Rhagfyr oedd:

Rosslyn Owen, Rhosfa, Lôn Bacsia, Rhosmeirch, Llangefni, Ynys Môn LL77 7SQ

Croesair Ionawr 2011

Eithriad ydi papur bro heb groesair, ac mae llawer un wedi gweld colli croeseiriau difyr, misol Brenda Wyn Jones yn 'Llais Ogwan'. Felly dyma geisio llenwi'r bwllch gan obeithio y byddwch, groeseirwyr ffyddlon, yn rhoi cynnig arni. Mae'r cliwiau yn gymysgedd o rai cryptig, gwybodaeth gyffredinol ac anagramau. Rhwir pumpunt o wob'r i'r ateb cywir cyntaf a dynnir o'r het bob mis. Pob hwy! ar y datrys. Anfonwch eich atebion erbyn 2 Chwefror i Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD.


AR DRAWS

1. Iarll ger yr afon; yfwr od! (6)
4. I droi'r dryll yn gleddyf (5)
8. Nid ffrind yr adar duon (5)
9. Nid pob tro; yn achlysurol (7)
10. Cricedwr (7)
- 12 & 11. Enw ardal, o ddwy afon, i'r gogledd o Gaerdydd yn ymestyn o Bontypridd i Lanharan (3,4)
14. Codi'r llen i dderbyn pererinion (4)
15. Un melyn o dan y feinir wen (4)
18. Cerrig, efydd, haearn; un ar ôl y llall (3)
21. Bob Roberts, Tai'r Felin oedd yn canu amdani (4)
23. Di-sut o anhrefnus. Chaiff o byth radd heb ymdrechu (7)
25. Cód ŵr; yr wyt eisiau cerdded y wlad i weld rhyfeddodau natur (7)

26. Mae sôn am y gwrthwynebydd ar ddiwedd y delyneg (5)
27. Mae'n gwybod nad lle i ddal y pysgodyn yma yw'r afon (5)
28. Edward yn cael haint yn y gofod! (6)

I LAWR

1. Heb yr un enaid ar gyfyl y lle (6)
2. Mae ffrwythau bach duon ar y goeden a'r gwas yn eu defnyddio i wneud gwin cartref (7)
3. Codi calon? Nid ydi o'n ei chodi. Mae'n dal i riddfan (8)
4. Dolur (4)
5. Gall dechrau edifarhau mewn talu'r pwyth roi'r



- amser i chi pan fydd yr haul yn tywynnu (5)
6. Rhoi toriadau papur newydd mewn llyfr lloffion (6)
7. Tarwch y bar! Dwi eisiau prynu dau beint o gwrw (5)
13. Trefi glo ar i fyny a'r glowyr, mae'n debyg, yn unionsyth. Oes plwm yma hefyd? (8)
16. Os y delo yno, cofiwch mai nid plentyn fydd o (7)
17. Onnen, derwen, collen; caiff fwydo ar unrhyw goeden. (6)
19. Rwyf yn mynd ynghanol sôn am ei werth a'i ansawdd (5)
20. O'n cof daw nodyn o'r pwyllgor (6)
22. Giat o'r hen sir, tybed? (5)
24. Oddi yno daw popeth wedi crasu a sychu (4)

D. E. HUGHES

a'i feibion cyf

YMGYMERWYR ADEILADAU
N.H.B.C.
Gardd Eden, Stryd Fawr,
Rachub, LL57 3HF
Ffôn a Ffacs 01248 602010

Gwasanaethau Digidol Cymru

Erials Digidol a
Gwasanaeth Lloeren

Erials teledu digidol - i un ystafell
neu i'r tŷ i gyd
Systemau SKY - cytundebau ar gael
BBC FREESAT ar gael
Gwaith cywiro erial neu loeren
galwch John ar
601 045 neu 0791 440
5373
www.gwadiem.com
FREEVIEW, SKY A FREESAT
Aelod o'r IDSC ac wedi ei gofrestru ar RDI



Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS



Adrian Stokes

Peintiwr
ac
Addurnwr



Rhif Ffôn: 601 575
Symudol 07765127704

L. Sturrs

a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgwymerwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Tudur Owen, Roberts, Glynne

a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT
SYMUD Tŷ

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 6 ac 16 sedd
Ffoniwch am bris diguro

01248 602260

07761619475
pandy.owen@btinternet.com

Tony Davies
Plymio a Gwresogi
Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
Rhif Corgi 190913

Symudol 078184 10640
01248 601 466

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Panad Musus?



Te Prynhawn

Ar brynhawn Iau, 16 Rhagfyr, bu dros gant o aelodau o gymdeithasau lleol yn yr ysgol yn derbyn lluniaeth ac adloniant gan ddisgyblion yr ysgol. Mae'r cyfan yn cael ei baratoi gan ddisgyblion blwyddyn 10 sy'n dilyn y cwrs Lletygarwch. Y disgyblion sy'n paratoi'r cyfan gan anfon y gwahoddiadau allan, gwneud y bwyd ymlaen llaw, gosod a pharatoi'r byrddau a gweini yn ystod y parti. Derbyniwyd llu o negeseuon yn diolch i'r ysgol am y croeso. Yr oedd yn braf iawn cael croesawu pawb i'r ysgol.

Disgyblion Dyffryn Ogwen yn Ceisio Achub y Byd



Cwis Teledu

Bu 6 disgybl o flwyddyn 8 yng Nghaerdydd yn cymryd rhan mewn cwis ar y teledu o'r enw Diwedd y Byd. Yr oedd y 6 yn rhannu'n ddau dîm, sef - Leone Sherlock, Rhys Evans a Cai Dickinson mewn un tîm, a Scott Hughes, Elin Cain a Louise Jeffreys yn y tîm arall. Pwrpas y cwis oedd ceisio achub y byd, a drwy ateb cwestiynau ar wybodaeth gyffredinol, fe lwyddodd y ddau dîm i wneud hynny! Llongyfarchiadau mawr iddynt! Edrychwn ymlaen yn fawr iawn i weld y rhaglenni ar y teledu!



Ysgol Abercaseg

Diolch

Diolch i Anti Jean am drefnu noson o Fingo unwaith eto. Aeth yr elw y tro hwn i dalu am anrhegion Siôn Corn i'r plant. Diolch am fod mor barod i gefnogi'r ysgol bob amser Anti Jean.

Cyngerdd Nadolig

Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig yr ysgol eleni yng Nghapel Bethania. Braff oedd gweld y capel yn llawn o rieni, teulu a ffrindiau'r plant yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi eu gwaith caled.

Cristingl

Cyn y Nadolig, cymerodd plant yr ysgol, ynghyd â phlant Ysgol Penybryn, ran mewn gwasanaeth Cristingl yn Eglwys Glanogwen. Cawsant bleser mawr yn creu'r Cristingl a llwyddwyd i greu naws arbennig y Nadolig yn y gwasanaeth.



Dyma lun o rai o'r plant yn y gwasanaeth yn gafael yn eu Cristingl personol hwy.

'Byw'n yr Ardd'

Cafodd plant blwyddyn 2 yr ysgol gymeryd rhan yn y rhaglen deledu 'Byw'n yr Ardd' oedd yn cael ei darlledu ar y nos Lun cyn y Nadolig. Roeddnt yn cloi'r rhaglen drwy ganu carol. Da iawn chi blant am ganu mor swynol!

Bore Coffi

Cynhelir bore coffi yn Neuadd Ogwen ar 22 Ionawr. Croeso cynnes i bawb alw draw i gael paned a sgwrs.

Ysgol Tregarth

Longyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Miss Llinos Barnes a'i phartner Mark ar eu dyweddïad diweddar. Newyddion hapus iawn ar ddechrau'r flwyddyn!

Cyngerdd Nadolig

Cafwyd gwledd i'r llygad a'r glust gyda'r cyngerdd 'Y Stori Ora' 'Rioed'. Diolch i'r plant am berfformiadau gwych ac i'r holl staff am eu gwaith caled. Diolch hefyd i Jones a Whitehead am eu gwaith yn cario'r llwyfan.

Anfonwn ein cofion at Mrs Eurwen Williams. Gwelsom ei cholli yn ystod y cyngerdd Nadolig eleni. Dymunwn adferiad buan iddi ar ôl ei chodwm. Diolch i'r Gweinidog a swyddogion Capel Shiloh am eu cydweithrediad parod bob amser.

Ffair Nadolig

Diolch o galon i bawb a gefnogodd y Ffair Nadolig eleni. Llwyddwyd i godi swm anrhydeddus iawn o £620.00. Ffair lwyddiannus iawn er gwaethaf y newidiadau byr-rybudd i'r trefniadau.

Ysgol Pen-y-bryn

Mentergarwch

Diolch yn fawr iawn i blant a staff yr ysgol am eu brwdfrydedd a'u gwaith caled yn ystod yr uned waith Mentergarwch. Yn ystod prynhawn 3 Rhagfyr, roedd pawb wrthi fel lladd nadroedd yn paratoi a chynnal yr holl stondinau. Daeth pawb yn llu ac fe werthwyd yr holl nwyddau Nadoligaidd mewn dim; felly diolch hefyd i'r rhieni a'r bobl leol a ddaeth i gefnogi'r achos. Daeth cyfanswm y prynhawn i £642.98 ac fe benderfynwyd rhannu'r arian rhwng dwy elusen leol; Cylch Ti a Fi Arch Noa a Chlwb Meithrin Cefnfaes. Diolch hefyd i griw teledu 'Ffeil' a ddaeth draw i ffilmio'r plant wrth iddynt greu, gwerthu a phrynu'r nwyddau.

Gwasanaeth Cristingl

Cafwyd gwasanaeth arbennig draw yn Eglwys Glan Ogwen ar 15 Rhagfyr. Daeth plant Pen-y-bryn ynghyd â phlant Ysgol babanod Abercseg er mwyn cychwyn dathliadau'r Wyl gyda gwasanaeth Cristingl. Fe gafodd y plant negeseuon pwysig iawn am wir ystyr y Nadolig; diolch i'r Parchedig Nia Williams am y gwasanaeth cofiadwy.

Ar y dde gwelir plant ysgol Pen-y-bryn yn y Gwasanaeth Cristingl. Mwy o hanes yr ysgol dros y dudalen.



Cinio Nadolig

Diolch o galon i Mrs Laura Jones, Anti Ffiona ac Anti Glynis am baratoi gwledd flasus dros ben. Roedd digonedd o dwrci, llyisiau a phwddin. Bwytaodd pawb lond eu boliau!



Rhai o Jac y Jwce Dosbarth Llywelyn Ysgol Tregarth yn y Cyngerdd Nadolig yng Nghapel Shiloh



Sioe Nadolig Ysgol Pen-y-bryn

Cawsom berfformiad rhagorol gan y plant yn ystod y Sioe Gerdd Nadolig 'Bwliten Bethlem' a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Ogwen eleni. Diolch yn fawr iawn i'r plant am eu gwaith caled a'u rhieni am eu cefnogaeth unwaith eto. Mae gennym actorion y dyfodol yn ein plith!



Herod a'r Herodets yn y sioe gerdd

Adran Babanod Llanllechid yn cael ymweliad â Gwlad y Rwla



Sioe Nadolig Adran y Babanod

Roedd disgyblion y ddau ddosbarth Derbyn, yn ogystal â Blynyddoedd 1 a 2 yn cymryd rhan yn sioe fawr 'Nadolig Gwlad y Rwla', a chafwyd dau berfformiad gwerth chweil – i rieni a chyfeillion yr ysgol. Roedd Strempan yn benderfynol o ddifetha Nadolig llawen Gwlad y Rwla, a phenderfynodd hi a Cena Cnoi y ci herwgipio Siôn Corn, yn ogystal â boddi cors y Llipryn Llwyd a dychryn Rwdlan a'i ffrindiau gyda mell, taranau a chenllysg blin! Yn ffodus, cafwyd cymorth gan Ceri Fferi a'i chyfeillion, ac roedd pawb yn hapus yn y diwedd. Diolch i rieni'r plant am wneud gwisgoedd mor fendigedig!

Ysgol Llanllechid

Hwyl y Nadolig!

Cafwyd hwyl a sbri yn yr ysgol ar ddiwedd y tymor. Cafodd pob dosbarth barti Nadolig gwych, gydag ymweliad ac anrheg gan Siôn Corn. Cafwyd cinio Nadolig blasus hefyd, yn ôl yr arfer – diolch i griw gweithgar y gegin, a bu'r holl blant yn ddyfal yn creu gwaith crefft lliwgar i addurno eu cartrefi. Bu'r ysgol gyfan yn gweld panto Nadolig 'Sinder-ddela' yn Neuadd Ogwen, ac roedd hynny'n sbort mawr!

Parti Blynyddoedd 1 a 2

Cafodd dosbarthiadau Mrs Parry Owen a Mrs Marian Jones barti Nadolig 'gwahanol' eleni. Trefnwyd eu parti gan griw gweithgar o chweched dosbarth Ysgol Dyffryn Ogwen fel rhan o'u cwrs 'BAC Cymreig'. Cynhaliwyd y parti ym Mhlas Ffrancon a chafwyd digon o gemau, hwyl a bwyd yno! Trefnodd disgyblion Dyffryn Ogwen fod Siôn Corn yn ymweld, ac wrth gwrs, roedd ganddo anrheg i bawb. Diolch yn fawr i griw Dyffryn Ogwen am barti hwyliog.

Y Dosbarth Meithrin

Bu'r Dosbarth Meithrin yn brysur iawn yn ddiweddar. Aeth pawb i Pili Palas ar daith i weld y creaduriaid diddorol, a chafwyd hwyl a sbri. Roedd y plant hefyd wedi bod yn brysur iawn yn dysgu caneuon i'w perfformio yn eu gwasanaeth Nadolig. Perfformiwyd stori'r Geni [ym mis Ionawr oherwydd yr eira] ac roedd pob un o'r plant yn wych!

Ymweliad â Piggery Pottery

Cafodd plant dosbarth Derbyn hwyl a sbri yn addurno cadw-mi -gei yn Piggery Pottery. Diolch i Mrs Barbra Winrow am y croeso cynnes eto eleni.

Ymweliad â Llanberis

Bu plant dosbarthiadau Mrs Wilson, Miss Thomas a Mrs Jones yn ymweld â Siôn Corn yn Llanberis. Cafodd y plant fynd ar y trên bach heibio Llyn Padarn cyn cyrraedd groto Siôn Corn. Roeddent wrth eu boddau yn cael cadw cwmni i'r dyn ei hun a chael gweld ble roedd y ceirw'n gorffwys - taith lwyddiannus dros ben a'r plant i gyd wedi mwynhau yn fawr.

Sioe Nadolig

Pantolig oedd teitl sioe Nadolig gerddorol yr adran Iau eleni a chafwyd môr o ganu, actio a llefaru a pherfformiadau afieithus, llawn bwrlwm a phob un o'r plant yn werth eu gweld. Diolch i chi rieni am ein cynorthwyo gyda'r gwisgoedd, - roedd hi'n anodd adnabod rhai o'r plant yn eu gwisgoedd lliwgar! Yn wir, roedd neuadd yr ysgol dan ei sang yn ystod y



Tair angyles yn nghyngerrd y babanod, Ysgol Llanllechid

ddau berfformiad - diolch i chi rieni a ffrindiau'r ysgol am ddod i'n cefnogi ac ymuno yn yr hwyl.

Torchau

Mae'n draddodiad fod disgyblion blwyddyn 6 yn dysgu am fentergarwch a chrefftau trwy greu torchau i'w gwerthu bob Nadolig. Diolch o galon i'r rhieni am helpu gyda llwyddiant ariannol ac am greu cymaint o foddhad i'n disgyblion. Diolch arbennig i mam Reece a Morgan, Mrs Caroline Jones (Blodau'r Grug) am arwain y gweithgaredd ac i Mrs Siân Williams am ein cynorthwyo.

Eira

Yn anffodus, oherwydd yr eira, ni fu cyfle i gyfnewid cyfarchion y tymor rhwng ysgol a chartref, felly, blwyddyn newydd dda i'n teuluoedd oll!

Cofion

Anfonwn ein cofion at Mrs Mona McDonald sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae pawb yn Ysgol Llanllechid yn cofio atoch ac yn dymuno gwellhad llwyr a buan i chi.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Mewn cyfarfod o'r gangen yn ddiweddar, nodwyd bod Plaid Lafur Gwynedd yn dechrau'r broses o ddewis ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau sirol ym mis Mai 2012, gan obeithio codi nifer y cynghorwyr o'r pedwar presennol i'r deg a oedd yno yn 2004 neu'n uwch.

Yng nghanol mis Rhagfyr aeth nifer o aelodau'r gangen i 'Question Time' y Blaid Lafur ym Mangor, gyda Joe Lock (Undeb y Myfyrwyr), Alun Pugh (cynweinidog y Cynulliad Cymru) ac Alwyn Humphreys (darpar ymgeisydd Plaid Lafur Arfon) ar y panel - gan dderbyn anrhegion gan Siôn Corn a chacennau briwgig (mins peis). Tom Corns, Cameddi (swyddog addysg wleidyddol Plaid Lafur Arfon) a fu'n cadeirio'r achlysur.

Da oedd clywed bod Walter Williams a Godfrey Northam yn cynrychioli llywodraethwyr yr ysgolion ar fforwm cyllido ysgolion Gwynedd, sy'n cyfarfod bob tymor ym Mhorthaethwy. Llongyfarchwn Godfrey ar gael ei ailethol yn gadeirydd y fforwm.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes ar y drydedd nos Fawrth yn Chwefror (15) ac mae'n debyg na fydd cyfarfod o'r gangen wedyn tan mis Mai.

Cwmni Hogyn o'r Gerlan i helpu Buddsoddwyr

MAE William Jones, gynt o Waen Gwail, Gerlan, yn credu y bydd y cwmni a sefydlwyd ganddo yn fodd i helpu pobl i gynyddu gwerth eu cyfalaf yn ogystal â gwella eu hincwm.

Treuliodd William rhyw 10 mlynedd yn astudio a gweithio ar farchnadoedd bydeang yn America a Chanada, ond mae bellach wedi dychwelyd i'w fro enedigol i sefydlu menter newydd, Gofal Cyfalaf Gerlan (Gerlan Capital Management).

Meddai William, "Mae pobl wedi cael llond bol ar y llogau difrifol o isel mae nhw'n eu cael gan y banciau heddiw, ac rydw'n ffyddiog y gall yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a gynigir gan y cwmni helpu pobl i sicrhau incwm/cynnydd o 1% - 2% y diwrnod ar eu cyfalaf. Mae'n ffordd wahanol i bobl reoli eu buddsoddiadau heb y pryder y gallant golli eu cyfalaf."

Am ragor o wybodaeth am seminarau wythnosol di-dâl, ffoniwch 01248 601333, neu tarwch i mewn i weld William yn 57 Stryd Fawr, Bethesda. Ebo: jevanwilliam@yahoo.com



Chwaraeon Codwyr Hwyl

Mae nifer o bobl ifanc ym Methesda wedi cael eu hyfforddi i fod yn godwyr hwyl [cheerleaders] gan swyddog o'r heddlu lleol a fu unwaith yn bencampwraig Ewropeaidd ei hun.

Bu PC Lisa Thomas, y Rheolwraig Rhawd Cymunedol lleol, yn helpu i hyfforddi plant 8 -10 oed Tîm Teigrad Ffrancon ar gwrs 10 wythnos arbennig a gynhaliwyd ym Mhlas Ffrancon, y Ganolfan Hamdden Leol.

Meddai Lisa, "Mi gymerais ran oherwydd fel Rheolwraig Rawd Cymunedol yma dwi'n gweithio'n agos iawn â staff y Ganolfan Hamdden.

Pan oeddwn i'n ifanc ron innau'n rhan o dîm codi hwyl ac fe fuon ni'n bencampwyr Prydeinig ac Ewropeaidd felly roedd gen i eisiau helpu Teigrad Ffrancon i gychwyn eu tîm arddangos Pom Pom yn y fro hon."

Dyweddodd PC Thomas bod y cwrs wedi ei helpu fel Rheolwraig Rhawd Cymunedol oherwydd ei bod wedi dod i adnabod y plant gan eu helpu i ddysgu sgiliau newydd a'i bod wedi ffurfio perthynas dda gyda'u rhieni.

Ar derfyn y cwrs cynhaliwyd noson o gyflwyno gwobrau arbennig ynghyd ag arddangosfa gan y plant pan gyflwynwyd medalau a brynwyd gyda chefnogaeth ariannol ymddiriedolaeth yr heddlu a'r gymuned iddynt.


Dyweddodd PC Thomas bod cwrs newydd yn cychwyn ym mis Ionawr ac mae hi wrth ei bodd ei bod wedi ei gwahodd i gynorthwyo unwaith eto.

Hwyliau'n Codi yn y Dyffryn



Cyflwynwyd tusw o flodau i PC Thomas i gydnabod ei gwaith ac fe'i gwelir yn y llun gyda rhai o'r tîm.

Gymnasteg



Y BWTHYN TE
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGystal A
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am. - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYD
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN = YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
 steven@ceunant.co.uk

Longyfarchiadau gwresog i dri o blant y Dyffryn am ddod i'r brig mewn seremoni wobrwyo Gymnasteg Gogledd Cymru yng Nghaernarfon ddechrau'r mis. Daeth Sophie Pipe a Buddug Roberts i'r brig am eu hymroddiad, a Dewi Jones am ei ddiwydrwydd fel hyfforddwr di-flino. Da iawn wir eich tri!